Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

**Cyfeirnod Rhyddid Gwybodaeth: OPCC 20-2019**

**Cais:**

1) Pa sefydliad (os o gwbl) y mae'r CHTh yn ei gomisiynu i drosglwyddo Cyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref i blant sydd wedi bod ar goll?

2) Faint o Gyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref a gynigwyd gan y CHTh (neu wasanaeth a gomisiynwyd) o 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019?

3) Faint o Gyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref a drosglwyddwyd gan y CHTh (neu wasnaeth a gomisiynwyd) o 1af Ebrill 2018 i 31ain Mawrth 2019? (h.y. lle cafodd y plentyn gyfweliad)

4) Sawl tro y codwyd camfanteisio troseddol ar blant (CCE), megis llinellau sirol, fel mater yn y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref hyn?

5) A yw Cyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref ond yn cael eu cynnig i Blant sy'n Derbyn Gofal, neu a oes grwpiau eraill sy'n gymwys ar gyfer Cyfweliadau Dychwelyd i'r Cartref? Os oes, rhestrwch y grwpiau cymwys os gwelwch yn dda.

**Ymateb:**

Mae Adran 1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod dwy ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus. Oni bai bod eithriadau'n gymwys, y ddyletswydd gyntaf dan Adran 1(1) (a) yw cadarnhau a yw'r wybodaeth a nodir mewn cais yn cael ei dal. Yr ail ddyletswydd dan Adran 1(1) (b) yw datgelu'r wybodaeth sydd wedi'i chadarnhau fel gwybodaeth sy'n cael ei dal.

1) Mae gan Llamau y cytundeb cyfredol sy'n dod i ben ar yr 31ain o Fawrth 2020. Y maent hefyd newydd fod yn llwyddiannus wrth dderbyn cytundeb i'r dyfodol, o 1af Ebrill 2020 am gyfnod o 2 flynedd.
2) Gweler y dangosfwrdd gan Llamau isod
3) Gweler y dangosfwrdd gan Llamau isod
4) Gweler y dangosfwrdd gan Llamau isod
5) Nid yw Ôl-drafodaethau wedi eu cyfyngu i Blant sy'n Derbyn Gofal yn unig. Y mae pob plentyn (unigolion dan 18 oed) yr adroddir i Heddlu Dyfed-Powys eu bod ar goll yn cael eu hystyried gan Gydlynydd Pobl Sydd ar Goll HDP, ac os ystyrir hynny'n briodol fe'u cyfeirir at Llamau ar gyfer Ôl-drafodaeth annibynnol. Y mae hwn fel arfer yn dilyn yr adroddiad 1af o fod ar goll, neu nifer o adroddiadau ailadroddus (5 mewn 6 mis ers yr Ôl-drafodaeth ddiwethaf) neu os oes rheswm arall am fod angen ailadrodd Ôl-drafodaeth.

Y mae hwn yn ymateb dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac a ddatgelwyd ar 19 Tachwedd 2019

2018/19

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr adroddiadau o Unigolion ar Goll | 339 | 324 | 284 | 277 | | 340 |
| Nifer yr Atgyfeiriadau ar gyfer Ôl-drafodaeth | 122 | 98 | 77 | 74 | 371 | 118 |
| Nifer yr Ôl-drafodaethau 1af | 77 | 65 | 67 | 41 | 250 | 0 |
| Nifer yr Ôl-drafodaethau a ailadroddwyd | 20 | 13 | 13 | 22 | 68 | 13 |
| Ôl-drafodaethau lle nodwyd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | 9 | 20 | 7 | 6 | 42 | 6 |
| Atgyfeiriadau at Dimau Diogelu | 13 | 4 | 5 | 6 | 28 | 6 |
| Dangosydd | C1 18/19 | C2 18/19 | C3 18/19 | C4 18/19 | Blynyddol | C1 19/20 |